

Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024/25

Cefndir a Rhagarweiniad

Mae'n arfer orau i bersonél PPC gael:

Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau fel y bônt yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC. Mae'r polisi yn rhoi rhagor o fanylion ar sut mae PPC yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad.

Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach.

Hyfforddiant 2024/25

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn eu trefnu yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol WPP ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLI') a Gweithgor Swyddogion ('GS').

Pwnc	Dyddiad
Gwybodaeth am Gynnyrch a Ddiogelwch Seibr	
<ul style="list-style-type: none">Buddsoddiadau cyfun y Bartneriaeth	Ch1
<ul style="list-style-type: none">Trosolwg o ddiogelwch seibr ac ystyriaeth i'r Bartneriaeth	Ebrill - Mehefin 2024
Polisiau	
<ul style="list-style-type: none">Polisi Buddsoddi Cyfrifol	Ch2 Gorffennaf - Medi 2024
<ul style="list-style-type: none">Polisi Risg Hinsawdd	
<ul style="list-style-type: none">Polisi Stiwardiaeth	
Buddsoddi Cyfrifol (RI)	
<ul style="list-style-type: none">Cynllunio taith Sero Net	Ch3
<ul style="list-style-type: none">Metrigau Hinsawdd	Hydref - Rhagfyr 2024
Deall y Farchnad a Gofynion Rheoleiddio	
<ul style="list-style-type: none">Cynnydd cronfeydd CPLIL eraill a Chyfleoedd i Gydwethio	Ch4
<ul style="list-style-type: none">Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd	Ionawr - Mawrth 2025

* Sylwch mai dyddiadau amcangyfrifedig yw rhain ac efallai y gallant newid